O F F E R Y N N A U S T A T U D O L
C Y M R U

2022 Rhif 379 (Cy. 96)

# TRAFFIG FFYRDD, CYMRU

# Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (North Street, Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Aros) 2022

*Gwnaed* *24 Mawrth 2022*

*Yn dod i rym* *26 Mawrth 2022*

Mae Gweinidogion Cymru, sef yr awdurdod traffig ar gyfer cefnffordd yr A470, drwy arfer y pwerau a roddir iddynt gan adrannau 1(1), 2(1), 2(2), 4(2) a 124(1)(d) o Ddeddf Rheoleiddio Traffig Ffyrdd 1984(**1**), a pharagraff 27(1) o Atodlen 9 iddi, yn gwneud y Gorchymyn hwn.

Mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â Phrif Swyddog Heddlu Dyfed-Powys ac wedi rhoi hysbysiad o'u bwriad i wneud y Gorchymyn hwn yn unol â rheoliadau 5(1) a 6(1) o Reoliadau Gorchmynion Traffig yr Ysgrifennydd Gwladol (Gweithdrefn) (Cymru a Lloegr) 1990(**2**).

### Enwi a chychwyn

**1.** Enw'r Gorchymyn hwn yw Gorchymyn Cefnffordd yr A470 (North Street, Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Aros) 2022 a daw'r Gorchymyn hwn i rym ar 26 Mawrth 2022.

### Dehongli

**2.** Yn y Gorchymyn hwn—

---

(**1**) 1984 p. 27; diwygiwyd adrannau 1(1), 2(1) a (2) gan adran 168 o Ddeddf Ffyrdd Newydd a Gwaith Stryd 1991 (p. 22) a pharagraffau 17 a 18 o Atodlen 8 iddi, a diwygiwyd adran 1(1) gan baragraff 36(1) o Atodlen 22 i Ddeddf yr Amgylchedd 1995 (p. 25). Yn rhinwedd O.S. 1999/672, ac adran 162 o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006 (p. 32) a pharagraff 30 o Atodlen 11 iddi, mae'r swyddogaethau hyn yn arferadwy bellach gan Weinidogion Cymru o ran Cymru.

(**2**) O.S. 1990/1656.

mae i “bathodyn person anabl” (“*disabled person’s badge*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 2(1) o Reoliadau Personau Anabl (Bathodynnau ar gyfer Cerbydau Modur) (Cymru) 2000(**1**);

mae i “disg parcio” (“*parking disc*”) yr ystyr a roddir yn rheoliad 8(5) o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000(**2**);

ystyr “y gefnffordd” (“*the trunk road*”) yw cefnffordd yr A470 Caerdydd i Langurig;

mae i “y safle perthnasol” (“*the relevant position*”) yr ystyr a roddir gan reoliad 4 o Reoliadau Gorchmynion Traffig Awdurdodau Lleol (Esemptiadau ar gyfer Personau Anabl) (Cymru) 2000.

**Gwahardd aros ar unrhyw adeg**

**3.** Ac eithrio fel a ddarperir yn erthygl 4, ni chaiff neb beri na chaniatáu i unrhyw gerbyd aros ar unrhyw adeg ar ochr orllewinol y darn o’r gefnffordd sy’n ymestyn i gyfeiriad y gogledd-orllewin o bwynt 28 o fetrau i’r gogledd-orllewin o linell cwrb ogleddol y B4518 Heol y Bont am bellter o 55 o fetrau yn North Street, Rhaeadr Gwy, Powys.

**Esemptiadau**

**4.**—(1) Caiff person beri neu ganiatáu i unrhyw gerbyd aros ar ochr y darn o’r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 cyhyd ag sy’n angenrheidiol i alluogi—

(a) person i fynd i mewn i gerbyd, neu i ddod allan ohono;

(b) nwyddau i gael eu llwytho ar y cerbyd neu eu dadlwytho ohono;

(c) y cerbyd i gael ei ddefnyddio mewn cysylltiad ag unrhyw un neu ragor o’r gweithrediadau a ganlyn:

(i) gwaith adeiladu, gwaith diwydiannol neu waith dymchwel;

(ii) symud unrhyw rwystr i draffig;

(iii) cynnal a chadw, gwella neu ailadeiladu’r darn o’r gefnffordd; neu

(iv) gosod, codi, addasu neu atgyweirio yn y darn o’r gefnffordd, neu mewn tir cyfagos, unrhyw garthffos neu unrhyw brif bibell, unrhyw bibell neu unrhyw gyfarpar ar gyfer cyflenwi nwy, dŵr neu drydan neu unrhyw gyfarpar cyfathrebu

(**1**) O.S. 2000/1786 (Cy. 123), a ddiwygiwyd gan O.S. 2014/3082 (Cy. 306). Mae offerynnau diwygio eraill, ond nid yw’r un ohonynt yn berthnasol.

(**2**) O.S. 2000/1785 (Cy. 122).

electronig fel y'i diffinnir ym mharagraff 5 o Atodlen 3A i Ddeddf Cyfathrebiadau 2003(**1**);

(d) y cerbyd i gael ei ddefnyddio yng ngwasanaeth awdurdod lleol neu awdurdod dŵr yn unol â swyddogaethau statudol;

(e) y cerbyd i gymryd petrol, olew, dŵr neu aer o unrhyw garej ar y darn o'r gefnffordd neu'n gyfagos iddo;

(f) y cerbyd i gael ei ddefnyddio at ddibenion y frigâd dân, y gwasanaeth ambiwlans neu'r heddlu; neu

(g) y cerbyd i stopio pan fo'r person sydd â rheolaeth arno'n gwneud y canlynol:

(i) pan fydd yn ofynnol yn ôl y gyfraith iddo stopio;

(ii) pan fydd yn gorfod stopio er mwyn osgoi damwain;

(iii) pan gaiff ei rwystro rhag mynd yn ei flaen; neu

(iv) pan fo'n gweithredu yn ôl cyfarwyddyd neu â chaniatâd cwnstabl heddlu, swyddog cymorth cymunedol yr heddlu neu swyddog gorfodi sifil.

(2) Caiff person beri neu ganiatáu i gerbyd sy'n dangos yn y safle perthnasol fathodyn person anabl a disg parcio (y mae'r gyrrwr, neu berson arall sy'n gyfrifol am y cerbyd, wedi nodi arnynt yr amser pryd y dechreuodd y cyfnod aros) aros ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3 am gyfnod nad yw'n fwy na 3 awr, gydag awr o leiaf yn gwahanu'r cyfnod hwnnw a chyfnod blaenorol y bu'r un cerbyd yn aros ar yr un diwrnod ar ochr y darn o'r gefnffordd a bennir yn erthygl 3.

## Dirymu

**5.** Dirymir Gorchymyn Cefnffordd (yr A470) (Rhaeadr Gwy, Powys) (Gwahardd Aros) 1993(**2**) i'r graddau y mae'n berthnasol i'r darn o'r gefnffordd a ddisgrifir yn erthygl 3 o'r Gorchymyn hwn.

(**1**) 2003 p. 21. Mewnosodwyd Atodlen 3A gan baragraff 1 o Atodlen 1 i Ddeddf yr Economi Ddigidol 2017 (p. 30).

(**2**) O.S. 1993/1667.

Llofnodwyd ar ran y Dirprwy Weinidog Newid Hinsawdd, yn gweithredu o dan awdurdod y Gweinidog Newid Hinsawdd, un o Weinidogion Cymru.

Dyddiedig 24 Mawrth 2022

*Nicci Hunter*
Arweinydd y Tîm Busnes
Llywodraeth Cymru